**Pwyllgor Safonau Ymddygiad STD 08-00 (cofnodion)**

**Dyddiad:** 26 Hydref 2000, am 2pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Aelodau*

David Melding, Canol De Cymru (Cadeirydd)

Val Feld, Dwyrain Abertawe

Brian Hancock, Islwyn

Cynog Dafis, Canolbarth a Gorllewin Cymru

Janice Gregory, Ogwr

Gwenda Thomas, Castell Nedd

Richard Edwards, Preseli Sir Benfro

*Swyddogion*

Julie Grant, Clerc Y Pwyllgor

Jill Thomas, Dirprwy Glerc

*Eraill*

Richard Penn, Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau rhagarweiniol y Cadeirydd**

1. Hwn oedd wythfed cyfarfod y Pwyllgor. Croesawyd Cynog Dafis, sy’n cymryd lle Janet Davis, i’r Pwyllgor gan y Cadeirydd. Diolchwyd i Ms Davis am ei chyfraniad gwerthfawr i’r Pwyllgor. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Humphreys, Gogledd Cymru.

2. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod ar 6 Gorffennaf yn gofnod cywir.

3. Materion yn codi: Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd fod cyfarfodydd yn dechrau yn brydlon ac y dylent wneud pob ymdrech i gyrraedd cyfarfodydd mewn pryd.

**Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac arolwg o'r camau a gymerwyd yn deillio o STD-07-00**

Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth – STD-08-00(1)

4. Nodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor.

**Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am Gofrestr buddiannau'r Aelodau**

Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth – STD-08-00(2)

5. Nodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor.

6. Materion yn codi: Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth fod y Gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei gweld naill ai ar y Rhyngrwyd neu yn adeilad y Cynulliad.

**Eitem 4: Yr Arolwg o Fuddiannau'r Aelodau**

Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth – STD 08-00(3)

7. Yn ei gyfarfod diwethaf cytunodd y Pwyllgor i ddosbarthu papur ymgynghorol i Aelodau'r Cynulliad i'w ystyried ganddynt dros yr wythnosau hynny yn ystod yr haf y byddant yn eu treulio yn eu hetholaethau.

8. Adroddodd yr Ysgrifenyddiaeth mai un ymateb i'r ymgynghoriad a gafwyd. Cefnogodd yr ymateb hwn argymhellion yr arolwg; yn enwedig dileu'r angen i gofrestru gwerthoedd ariannol fel y cynigiwyd. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn anfon gair o ddiolch a chydnabyddiaeth i'r atebydd ar ran y Pwyllgor. Cododd rhai pwyntiau eraill:-

<u>*Mater 1 - Arweinlyfr poced ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau*</u>

Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth fod yr arweinlyfr poced wedi'i ddosbarthu i Aelodau ac wedi'i gyhoeddi ar y Fewnrwyd. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe gellid trefnu bod y daflen ar gael yn gyfleus i Aelodau pan fyddant yn y cyfarfod llawn.

*Gweithred*: Yr Ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i'r posibilrwydd o ychwanegu'r arweinlyfr i'r wybodaeth sydd ar gael ar We y Siambr.

*Mater 2 – Amseru Datgan Buddiannau yn ystod y Cyfarfod Llawn*

Teimlai'r Pwyllgor fod yr arfer presennol o ddatgan buddiannau ar ôl gwneud cyfraniad yn y cyfarfod llawn yn tynnu oddi ar bwysigrwydd yr angen i wneud hynny a'i fod wedi arwain at beth dryswch. Dylai datganiadau gael eu gwneud ar ddechrau cyfraniad Aelod. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn trafod y mater â'r Llywydd.

**Eitem 5: Adroddiad a Dadl Flynyddol y Pwyllgor**

Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth – STD 08-00(4)

9. Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad drafft a gofynnodd iddo gael ei ehangu er mwyn cynnwys paragraff a fyddai'n adlewyrchu gweithgarwch y Pwyllgor ar fater datgan buddiannau. Yn ychwanegol, teimlai'r Pwyllgor y dylid egluro geiriad paragraff 5.2 er mwyn pwysleisio nad oedd y Pwyllgor o blaid defnyddio'r peirianwaith cwyno at ddibenion amhriodol.

*Gweithred*: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r drafft a'i gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.

10. Roedd slot yn y cyfarfod llawn ar 21 Tachwedd wedi'i nodi ar gyfer trafod yr Adroddiad Blynyddol. Cytunodd y Cadeirydd i agor a chau'r ddadl, gyda chynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau gwleidyddol sy'n ffurfio'r Pwyllgor yn cyfrannu yn ystod y ddadl ei hun. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig bod holl Aelodau'r Cynulliad sy'n nodi eu bod yn bwriadu siarad yn cael y cyfle i wneud hynny ac y dylai'r rhain gael y flaenoriaeth dros Aelodau'r Pwyllgor os oes angen. Cytunodd y Cadeirydd i godi'r mater hwn gyda'r Llywydd.

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

*Mater 1 – Cyfarfod â Chynulliad Gogledd Iwerddon*

11. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar ei gynhadledd fideo gyda Chynulliad Gogledd Iwerddon ar 13 Hydref. Roedd y gynhadledd, a gynhaliwyd ar gais Pwyllgor Gogledd Iwerddon, yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth a gwblhawyd gan y Pwyllgor ar gyfer ei ymchwiliad i'r modd y penodwyd Ymgynghorydd Annibynnol ar safonau ganddo.

*Mater 2 – Pwerau I Benodi Cadeiryddion Dros Dro*

12. Trafododd y Cadeirydd a'r Pwyllgor y potensial am wrthdaro buddiannau posibl rhwng y Cadeirydd a mater sydd dan ystyriaeth gerbron y Pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn archwilio'r posibiliadau o newid Rheolau Sefydlog y Pwyllgor er mwyn

darparu ar gyfer penodi Cadeiryddion Dros Dro.

*Gweithred*: Yr Ysgrifenyddiaeth i drafod yr opsiynau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

*Dyddiad y Cyfarfod Nesaf*

13. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd nesaf ar 6 Rhagfyr.

**Item 7: C004- 00, C007- 00**

14. Gwrandawiadau a gynhaliwyd mewn sesiwn caeedig.

Ysgrifenyddiaeth Y Pwyllgor Safonau

Swyddfa’r Llywydd